ARCHIFDY SIR Y FFLINT

SESIYNAU YMGYNGHORI UNIGOL

A yw'ch gwaith ymchwil yn sefyll yn ei unfan? Ydych chi'n meddwl tybed ble i edrych nesaf? A fyddech yn hoffi pe bai gan staff yr Archifdy fwy o amser i wrando ar eich anawsterau, eu trafod gyda chi a chynnig cyngor? Mae ein staff cyfeillgar yn gwneud eu gorau i helpu pobl yn yr ystafell chwilio brysur ond mae'n gallu bod yn anodd rhoi cymaint o sylw ag yr hoffent ei roi i bob cwsmer.

Os felly, efallai yr hoffech neilltuo sesiwn ymgynghori unigol gydag aelod o staff yr Archifdy. Am £10 cewch sylw aelod o staff am hanner awr i drafod eich gwaith ymchwil a llwybrau posibl i'w dilyn. Mae'r sesiynau hyn yn rhan o wasanaeth newydd a gynigir gan yr Archifdy a byddant yn cael eu cynnal yn yr ystafell chwilio ar fore Llun am 9.30am o ddydd Llun 16 Ebrill 2012 ymlaen.

Sesiynau un-i-un fydd y rhain, ond os oes dau o bobl yn gweithio gyda'i gilydd ar yr un gwaith ymchwil, gallant ddod gyda'i gilydd i'r sesiynau. Yr un fydd y gost - £10 y sesiwn. Nid sesiynau grŵp fyddan nhw, felly mae'n bosibl y codir mwy ar sesiynau sy'n cynnwys mwy na dau o bobl.

Os hoffech fanteisio ar y gwasanaeth hwn, ffoniwch yr Archifdy i neilltuo sesiwn. Dim ond un sesiwn a gynhelir bob dydd Llun, felly neilltuwch o flaen llaw i sicrhau eich bod yn cael eich diwrnod dewisedig. Rhaid i chi neilltuo lle cyn 4pm ar y dydd Gwener cynt fan bellaf. Rhowch fanylion eich ymholiad wrth neilltuo er mwyn arbed amser ar y diwrnod. Gall y staff wedyn eich helpu mor effeithlon ag sy'n bosibl yn yr amser sydd ar gael. Edrychwn ymlaen at eich helpu ymhellach â'ch ymholiadau ymchwil.